# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Cartref Gofal Redcroft**

**Cartref Preswyl Redcroft**
**1-3**
**Alexandra Road**
**Bae Colwyn**
**LL29 7YB**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

**3 Tachwedd 2020**

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2020.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Cartref Gofal Redcroft

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Oedolion Heb Ofal Nyrsio |
| Darparwr Cofrestredig | ARG BUSINESS ASSOCIATES LIMITED |
| Lleoedd cofrestredig | 14 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio tuag at ddarparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n bwriadu dod yn wasanaeth dwyieithog. |

## Crynodeb

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Roedd hwn yn arolygiad â phwyslais penodol. Mae'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth yn fodlon ar y gofal a gânt. Mae'r staff a'r rheolwyr yn garedig, yn ofalgar ac yn sylwgar. Yn ystod COVID-19, rhoddir y wybodaeth ddiweddaraf i aelodau o'r teulu ac maent yn cael galwadau ffôn/galwadau dros skype gyda'u hanwyliaid yn rheolaidd. Mae dogfennau ar gael i'r staff ond mae angen gwneud gwelliannau er mwyn sicrhau eu bod yn cynnwys gwybodaeth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ynghyd â gwybodaeth benodol i'r staff ei dilyn. Mae'r staff yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi yn eu rolau ond mae angen gwneud gwelliannau er mwyn sicrhau bod sesiynau goruchwylio ac arfarniadau yn cael eu cwblhau yn gyson drwy gydol y flwyddyn. Mae hyfforddiant ar gael i'r staff ond mae angen datblygu hyn ymhellach. Mae'r gwasanaeth yn gweithredu gyda rheolwr sydd yn y broses o gofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru. Ni welsom dystiolaeth bod hyn yn cael effaith uniongyrchol ar y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth nac yn arwain at ganlyniadau gwael iddynt.

## Llesiant

Caiff y bobl eu trin ag urddas a pharch. Gwnaethom weld a chlywed y staff a'r unigolyn cyfrifol yn rhyngweithio â'r bobl mewn ffordd gyfeillgar a charedig. Cawsom adborth cadarnhaol gan y bobl a'u perthnasau am y gofal a'r cymorth roeddent yn eu cael. Roedd sylwadau yn cynnwys, *“The staff here are very kind and hardworking”, “Staff member X is wonderful; she is so patient with me”, “Staff always come in with a smile”, “I cannot fault how the home as managed during COVID-19. I’ve been kept informed and I feel very reassured that mum is safe and well looked after”, “I am well informed about my mother and can approach the owner with any of my concerns”* a *“The home have recently took on a Welsh speaking staff member which is great for mum as she is Welsh speaking”.*

Ar y cyfan, mae'r bobl yn cael y gofal a'r cymorth cywir i ddiwallu eu hanghenion unigol. Mae'r staff yn ofalgar ac yn rhoi sylw i anghenion a dewisiadau unigol y bobl. Darperir cymorth i sicrhau bod atgyfeiriadau yn cael eu gwneud a bod cofnodion yn cael eu cadw o bob apwyntiad i weld gweithwyr iechyd proffesiynol. Caiff cynlluniau personol eu hadolygu'n rheolaidd. Fodd bynnag, ar adegau, nid oeddent yn cynnwys digon o wybodaeth a oedd yn canolbwyntio ar yr unigolyn na gwybodaeth benodol am anghenion y bobl. Mae'r gwasanaeth wedi dechrau cynnal rhai gweithgareddau unwaith eto erbyn hyn, ac mae'r rheolwr wrthi'n adolygu'r rhain er mwyn sicrhau y gall y bobl wneud y pethau sy'n bwysig iddynt. Mae polisïau a gweithdrefnau ar gael i'r staff, er bod angen adolygu rhai ohonynt. Mae systemau ar waith er mwyn sicrhau bod gan y gwasanaeth drefniadau addas ar waith i asesu, monitro a gwella ansawdd a diogelwch y gwasanaeth.

Ar y cyfan, mae gan y gwasanaeth systemau ar waith i ddiogelu'r bobl rhag camdriniaeth ac arferion esgeulus. Mae'r staff yn deall pwysigrwydd diogelu ac mae'r asiantaethau perthnasol wedi cael gwybod am bron pob digwyddiad. Mae angen gwneud gwelliannau i sicrhau bod yr holl staff wedi cwblhau hyfforddiant diogelu. Mae'r unigolyn cyfrifol yn goruchwylio unrhyw ddigwyddiadau diogelu yn dda ac mae ganddo bresenoldeb amlwg yn y cartref. Mae angen diweddaru ac adolygu'r polisïau a gweithdrefnau diogelu a chwythu'r chwiban er mwyn sicrhau eu bod yn cyd-fynd â gweithdrefnau diogelu lleol ar gyfer oedolion, canllawiau cenedlaethol a deddfwriaeth gyfredol.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## Gofal a Chymorth

At ei gilydd, mae'r cynlluniau personol a'r asesiadau risg yn cynnwys risgiau, gofal ac anghenion cymorth unigol y bobl. Cyn symud i mewn i'r cartref, caiff gwybodaeth ei chasglu i sicrhau bod y cartref yn addas. Nid oedd dogfennau derbyn ar gael ar gyfer rhai unigolion. Gwnaethom gadarnhau bod yr unigolion hyn wedi symud i mewn i'r cartref pan oedd dan berchnogaeth flaenorol. Gwelsom fod y cynlluniau personol yn adlewyrchu'r wybodaeth a gasglwyd gan y bobl, eu perthnasau a gweithwyr iechyd proffesiynol. Mae angen ymchwilio ymhellach i fanylion am gefndir diwylliannol a theuluol y bobl, digwyddiadau pwysig, pobl a lleoliadau o'u bywydau gyda'r unigolion dan sylw a chofnodi'r manylion hynny. Bydd hyn yn galluogi'r staff i feithrin dealltwriaeth well o bwy yw'r unigolyn mewn gwirionedd. Nid oedd rhai o'r cynlluniau personol a'r asesiadau risg yn cynnwys digon o wybodaeth benodol i sicrhau bod y staff newydd yn deall anghenion gofal a chymorth y bobl yn llwyr.

Mae'r gwasanaeth yn gweithio mewn partneriaeth â gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol. Mae'r staff yn gwneud atgyfeiriadau priodol ac yn gofyn am gyngor er mwyn helpu'r bobl i gynnal eu hiechyd a'u llesiant. Caiff yr holl ddogfennaeth a gohebiaeth eu cadw i ddarparu cofnod iechyd ar gyfer yr unigolion. Dywedodd y rheolwr wrthym fod ganddo gysylltiadau da â gweithwyr proffesiynol eraill y gallai gysylltu â nhw i gael cyngor a chymorth mewn perthynas â'r unigolion sy'n byw yn y cartref. Cawsom ymateb cymysg i ansawdd y prydau bwyd a ddarperir. Ers hynny, cawsom wybod bod y cartref yn ystyried dewisiadau newydd gyda'r preswylwyr - mae rhai wedi bod yn boblogaidd ac eraill ddim cystal. Bydd angen i'r gwasanaeth barhau i adolygu hyn gyda'r preswylwyr. Dywedodd pob un o'r bobl y gwnaethom siarad â nhw nad oes unrhyw gyfyngiadau ar fwyd na suddion.

Cyn y cyfyngiadau symud, roedd y gwasanaeth yn cynnig rhaglen weithgareddau lawn; fodd bynnag, ers COVID-19, mae llai o weithgareddau yn cael eu cynnal yn y cartref. Mae hyn o ganlyniad i bobl yn hunanynysu ac adloniant yn yr awyr agored yn cael ei ohirio am y tro. Ers i ni ymweld â'r gwasanaeth, cawsom wybodaeth bod y gwasanaeth wedi dechrau cynnal cwisiau a sesiynau celf a chrefft unwaith eto. Mae'r bobl yn cael galwadau dros skype gyda'u hanwyliaid yn rheolaidd. Dywedodd aelodau o'r teulu wrthym eu bod yn aml yn gweld yr unigolyn cyfrifol yn eistedd gyda'u perthynas yn ystod yr alwad a bod hyn yn tawelu eu meddwl.

Ar y cyfan, caiff y bobl eu hamddiffyn rhag camdriniaeth ac arferion esgeulus. Rhoddwyd gwybod i'r asiantaethau perthnasol am bron pob digwyddiad hysbysadwy. Mae hyfforddiant diogelu yn faes i'w wella. Cafodd yr hyfforddiant hwn ei ganslo ym mis Mehefin 2020 o ganlyniad i COVID-19.  Rydym yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i fynd i'r afael â hyn, a chaiff y mater ei ystyried eto yn ystod yr arolygiad nesaf. Roedd y staff y cawsom sgwrs â nhw yn deall eu cyfrifoldebau unigol am leisio pryder er mwyn sicrhau diogelwch a llesiant unigolion. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn teimlo'n ddiogel yn y cartref ac y gallant siarad â'r staff a/neu'r rheolwyr os oedd unrhyw beth o'i le. Cadarnhaodd y perthnasau y cawsom sgwrs â nhw y gallent fynd at yr unigolyn cyfrifol os oedd ganddynt unrhyw

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

bryderon. Mae polisi a gweithdrefn diogelu a chwythu'r chwiban ar gael; fodd bynnag, mae angen adolygu a diweddaru'r rhain.

Mae'r gwasanaeth yn hybu arferion hylendid ac yn rheoli'r risg o haint yn dda. Gwelsom fod y staff yn gwisgo cyfarpar diogelu personol (PPE) bob amser yn ystod ein harolygiad. Dywedodd perthnasau wrthym fod y staff yn gwisgo PPE yn ystod ymweliadau a bod y cartref yn darparu PPE iddyn nhw hefyd, lle y bo angen. Mae polisïau a gweithdrefnau COVID-19 penodol ar waith, gan gynnwys asesiadau risg i ymwelwyr, er mwyn lleihau lledaeniad yr haint. Mae angen gwneud rhagor o waith i sicrhau bod polisi a gweithdrefn hylendid a rheoli heintiau yn cael eu hadolygu a'u diweddaru.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## Yr Amgylchedd

Ni wnaethom ganolbwyntio ar yr amgylchedd; caiff y maes hwn ei arolygu mewn arolygiadau yn y dyfodol.  Fodd bynnag, nodwyd gennym fod y cartref yn lân ac yn gynnes. Ar ddiwrnod ein hymweliad, roedd ardal y staff yn cael ei hailddylunio er mwyn cadw pellter cymdeithasol yn well. Mae'r bobl wedi personoli eu hystafelloedd i raddau amrywiol gyda'u pethau cofiadwy, eu haddurniadau a'u lluniau eu hunain, gan greu awyrgylch cartrefol. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn fodlon ar eu hystafelloedd.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## Arwain a Rheoli

Ar y cyfan, mae'r staff yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi yn eu rôl a bod rhywfaint o hyfforddiant ar gael iddynt. Roedd pob aelod o'r staff a gyfrannodd at yr arolygiad hwn yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan y rheolwr newydd a'r unigolyn cyfrifol.  Mae angen gwneud gwelliannau er mwyn sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cael sesiynau goruchwylio unigol ac arfarniad blynyddol. Bydd hyn yn sicrhau bod y staff yn gallu myfyrio ar eu harferion, cael adborth ar eu perfformiad a nodi unrhyw feysydd lle bydd angen hyfforddiant a datblygiad. Gwelsom fod y staff, y rheolwr a'r unigolyn cyfrifol yn rhyngweithio â'r bobl mewn ffordd bwyllog a chefnogol. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn brysur, yn enwedig yn ystod yr adegau prysurach, ond eu bod yn llwyddo i ddod i ben â'r gwaith. Ni fu'n rhaid gohirio rhoi cymorth i neb a gyfrannodd at yr arolygiad hwn. Dywedodd perthynas wrthym,*"There are a lot of new faces and I hope this settles to give mum some consistency".* Mae hyfforddiant staff, gan gynnwys hyfforddiant dementia, yn faes y mae angen ei wella. Rydym yn cydnabod bod hyfforddiant wedi'i drefnu ar gyfer mis Mehefin 2020 ond ei fod wedi cael ei ganslo o ganlyniad i COVID-19. Rydym yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i fynd i'r afael â hyn, a chaiff y mater ei ystyried eto yn ystod yr arolygiad nesaf.

Penodwyd rheolwr newydd sydd yn y broses o gofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru ar hyd y llwybr newydd. Mae'r llwybr hwn yn cefnogi gwasanaethau gyda rheolwyr sydd wrthi'n cwblhau'r cymhwyster gofynnol. Bydd hyn yn dechrau y cylch gofrestru a bydd yn rhaid i reolwyr gwblhau'r cymhwyster angenrheidiol o fewn tair blynedd. Ni welsom dystiolaeth bod hyn yn cael effaith uniongyrchol ar y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth nac yn arwain at ganlyniadau gwael iddynt. Dywedodd y rheolwr newydd wrthym ei fod yn teimlo ei fod yn cael ei gefnogi'n llawn gan yr unigolyn cyfrifol.

Mae systemau ar waith i asesu a monitro ansawdd y gwasanaeth. Mae'r unigolyn cyfrifol yn bresennol yn y cartref bron bob dydd, ond mae'n ymweld â'r gwasanaeth yn swyddogol bob tri mis. Mae system ar waith i ddarparu tystiolaeth bod ymweliadau wedi'u cofnodi a'u dogfennu. Bu cyfnod pan nad oedd yr unigolyn cyfrifol yn gallu mynd i mewn i'r cartref oherwydd COVID-19. Fodd bynnag, darparwyd cymorth ac adolygiad dros y ffôn. Mae adolygiad o ansawdd y gofal wedi cael ei gynnal ym mis Hydref 2020, sy'n dangos bod gan y gwasanaeth drefniadau addas ar waith i asesu, monitro a gwella ansawdd y gwasanaeth.

| Y meysydd i'w gwella a'r camau a nodwyd yn yr arolygiad blaenorol | | |
|---|---|---|
| Dim | | |

| Meysydd lle y mae angen gweithredu ar unwaith | |
|---|---|
| Dim | |

| Meysydd y mae angen eu gwella | |
|---|---|
| Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cael ei oruchwylio a'i arfarnu'n briodol. | 36 (2) (c) |
| Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cael hyfforddiant craidd cyfredol sy’n briodol i'r gwaith y disgwylir iddynt ei gyflawni. | 36 (2) (d) |
| Nid yw rheolwr y gwasanaeth wedi'i gofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru. Ar adeg cwblhau'r adroddiad hwn, roedd y rheolwr yn y broses o gofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru. | 68 |
| Rhaid i'r darparwr cofrestredig roi'r trefniadau priodol ar waith er mwyn cadw polisïau a gweithdrefnau'n gyfredol. | 79 |

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Nid ydym wedi cyflwyno hysbysiad (diffyg cydymffurfio) gweithredu â blaenoriaeth y tro hwn. Mae hyn am nad oedd unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol na chanlyniadau gwael i'r plant sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Rydym yn disgwyl i'r darparwr cofrestredig gymryd camau i unioni hyn, a chaiff y mater ei ystyried eto yn ystod yr arolygiad nesaf.

**Dyddiad Cyhoeddi** 12 Ionawr 2021